# YMDDIRIEDOLAETH JAMES PANTYFEDWEN

## CANLLAWIAU AR GYFER CEISIADAU AR RAN EISTEDDFODAU

1. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod tua pum gwaith y flwyddyn.

2. Rhaid bod yr Ymddiriedolwyr yn cael cyfle i ystyried y cais **cyn dyddiad yr Eisteddfod**. Mae'n bwysig felly bod ymgeiswyr yn cyflwyno eu ceisiadau o leiaf tri mis cyn dyddiad yr Eisteddfod.

3. Gall unrhyw Eisteddfod leol gyflwyno cais ar yr amod bod yr Eisteddfod yn syrthio i un o ddau ddosbarth:
   (i) bod yr Eisteddfod wedi'i chofrestru fel elusen.
   (ii) y trefnir yr Eisteddfod o dan aden corff sy'n elusen gofrestredig neu yn elusen eithriedig (e.e. eglwys neu neuadd bentref).

4. Bydd cymorth ariannol yr Ymddiriedolaeth yn seiliedig ar canran o'r arian gwobrau a dalwyd yn yr Eisteddfod flaenorol. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn ystyried unrhyw gostau eraill (e.e. tlysau a chwpanau). Ar hyn o bryd mae'r cyfraniad yn 30% ond gall hwn amrwyio o flwyddyn i flwyddyn. Yr uchafswm yw £500.

5. Wrth gyflwyno ffurflen gais bydd angen ychwanegu copi o gyfrifon archwiliedig llawn yr Eisteddfod ddiwethaf ynghŷd â chopi o raglen swyddogol yr Eisteddfod flaenorol.

6. Gofynnir am gydnabyddiaeth o gymorth yr Ymddiriedolaeth ar raglen yr Eisteddfod. Er mwyn hyrwyddo hyn hysbysir yr ymgeiswyr o maint y cymorth o fewn dyddiau o dderbyn y cais. Telir grantiau yn arferol tua mis cyn dyddiad yr Eisteddfod **ar yr amod bod yr Ymddiriedolaeth wedi derbyn copi o'r raglen perthnasol**. Bydd methiant i gyflwyno'r rhaglen yn arwain at oedi yn talu'r grant.